



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Canllaw Ffotograffiaeth Cynefin



Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad.....	3
2. Y Dosbarthiadau Cynefin Bras.....	4
2.1. Morfeydd Heli.....	4
2.2. Twyni tywod arfordirol a thraethau graean.....	6
2.3. Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad.....	7
2.4. Gwlyptir wedi'i amgáu (cors, ffen, llac / mignen) a glaswelltir corsiog.....	11
2.5. Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu (glaswelltir sur, niwtral, calchaid, metelaidd).....	16
2.6. Cynefinoedd agored yr ucheldir.....	25
2.7. Rhedyn trwchus.....	26
2.8. Perllannau traddodiadol.....	28
2.9. Prysgwydd (gan gynnwys rhedyn gwasgaredig a llai trwchus).....	29
2.10. Coetir pori.....	31
2.11. Pyllau parhaol ar gyfer bywyd gwyllt.....	33
2.12. Ardaloedd o gynefin sydd newydd eu creu ar dir wedi'i wella.....	34
3. Tir Gwell.....	35

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ganllaw gweledol i'ch helpu i wirio a chadarnhau'r cynefinoedd ar eich daliad. Mae'r disgrifiad a'r delweddau a ddarparwyd yn enghreifftiau o bob dosbarthiad cynefin.

Mae'r gofynion ar gyfer pob dosbarthfa bywyd gwyllt yn cael eu manylu yn Adran J5 o'r **Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS** ac fe ddangosir lleoliad a maint pob dosbarthfa bywyd gwyllt sydd wedi'i mapio ar hyn o bryd ar gyfer eich dalfa ar Fap SFS drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Fel arfer, byddwch yn gallu cadarnhau bod categori'r cynefin yn gywir ar sail arferion ffermio hanesyddol. Ond ambell waith, efallai bydd angen bwrw golwg ar ein lluniau diweddaraf o'r awyr a defnyddio'r disgrifiadau a ddarperir yma o gynefinoedd i gadarnhau pa gategori y mae'r tir dan sylw yn perthyn iddo.

At ddiben y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:

- **Tir cynefin lled-naturiol yw tir sydd â llai na 25% ohono o dan rygwellt neu feillion gwyn neu rywogaeth arall sydd wedi'i hau at ddiben amaethyddol.**
- Tir amaethyddol wedi'i wella yw tir sydd â mwy na 25% ohono'n rhygwellt neu feillion gwyn neu rywogaeth arall sydd wedi'i hau at ddiben amaethyddol.

Wrth astudio lluniau o'r awyr, mae tir lled-naturiol fel arfer o liw gwyrdd gwelw, melyn neu frown, ac yn edrych yn wahanol i'r tir pori wedi'i wella fydd yn wyrdd llachar. Ond cofiwch, ar ôl tocio cynefin neu ladd cae gwair, yn aml ceir hwrdd o dyfiant glas. Gall hynny ddigwydd ar dir lled-naturiol yn y gwanwyn hefyd.

Os bvdd cymysgedd neu glytwaith o gynefinoedd gwahanol mewn parsel ac y byddai'n anodd mapio'r dosbarthiadau unigol, dylech fapio'r cynefin sy'n dominyddu (h.y. yn gorchuddio'r arwynebedd mwyaf).

Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd

Ar SAF 2026, bydd yn rhaid i chi gynnal Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Hwn fydd eich cyfle olaf i gadarnhau, ychwanegu, dileu neu newid y darnau canlynol o dir sydd wedi'u mapio ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS:

- Pob cynefin sy'n bod eisoes, fel y'i diffinnir yn UA5 - Cynnal Cynefinoedd: Rhaid cadarnhau pob cynefin lled-naturiol fel un o'r 12 categori cynefin bras.
- Darnau o dir sy'n cael eu defnyddio i greu Cynefinoedd Dros Dro yn unol ag UA6 - Cynefin Dros Dro, os oes angen.
- Canopi Coed: Bydd angen i chi gadarnhau faint o dir ar eich daliad sydd o dan ganopi coed a/neu goetir, gan gynnwys coetir llydanddail sefydledig 0.1ha neu fwy, a fydd yn cyfrif tuag at UA9: Cynnal coetir.

Mae manylion llawn ar gael yn Adran L o Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS

2. Y Dosbarthiadau Cynefin Bras

2.1 Morfeydd Heli

Mae morfeydd heli'n ymffurfio pan fydd planhigion yn coloneiddio lleiniau cysgodol o fwd rhwng y penllanw isaf a'r penllanw uchaf. Maent i'w gweld fel arfer felly ar lannau cysgodol aberoedd.

Ceir llystyfiant fel glaswellt, hesg, brwyn a phlanhigion sy'n gallu gwrthsefyll heli'r môr. Ceir parthau o llystyfiant gwahanol, gan adlewyrchu pa mor aml y mae'r môr yn eu boddi. Mae pen ucha'r forfa'n gallu ymdebygu i laswelltir sych lled-naturiol. Mae rhai'n gorchuddio rhannau eang o'r arfordir.

Mae morfeydd eraill yn llai, yn gorchuddio ond darnau bach o fewn amrediad llanw'r aber.

Delwedd: Morfa heli – heb lawer o bori.



Delwedd: Morfa heli – yn cael ei phori'n drymach.



Delwedd: Morfa heli – stribyn cymharol gul o'r forfa nad yw'n cael ei phori. Trwch o lygwyn llwydwyn



2.2 Twyni Tywod a Thraethau Graean

Mae twyni tywod yn cynnwys nifer o fathau o llystyfiant arfordirol lled-naturiol sy'n tyfu mewn tywod. Maen nhw'n gallu ffurfio systemau deinamig gyda darnau o dywod moel, moresg, glaswellt manach a llysiau a phlanhigion y rhysoydd. Gall pyllau dŵr tymhorol ymffurfio ymhellach o'r arfordir yn llaciau'r twyni.

Mae traethau graean arfordirol yn gynefinoedd lle ceir planhigion arbenigol sy'n gallu tyfu ar ddeunydd brasach fel cerigos neu ro yn gymysg â thywod a gwaddod manach. Mae graean â llystyfiant yn gallu ymsefydlogi dros amser a throï'n laswelltir neu ros.

Delwedd: Twyni tywod a thraethau graean â llystyfiant – system eang o dwyni tywod



2.3 Rhos Llawr Gwlad a Rhos yr Arfordir

Mae'n hawdd adnabod rhosydd llawr gwlad fel tir lled-naturiol gan fod o leiaf 25% o'r gorchudd yn gorlwyni, yn enwedig grug, eithin a weithiau llus, mewn clytwaith yn gymysg â phorfa, brwyn, hesg a mwsoglau (gan ddibynnu ar hydroleg) ar bridd mwynaid neu fawn bas (llai na 50 cm o fawn).

Gall golwg rhos llawr gwlad amrywio'n fawr. Gall ei strwythur amrywio'n fawr a chynnwys grug gwasgarog wedi'i docio gan wynt a thywydd gyda llawer o bridd moel ar rosydd arfordirol ger clogwyni; gorchudd trwchus o rug ac eithin ar ros sych neu arfordirol; a rhos wlyb lle mae glaswelltir y gweunydd neu glwbfrwyn y mawn yn boddi'r corlwyni.

Gall rhos wlyb ymddangos yn debyg i rai mathau eraill o wlypdir a gall llai na 25% o'i gorchudd fod yn gorlwyni. Ond lle ceir lleiniau sydd ag o leiaf un math o orlwyn ac un neu fwy o'r canlynol: sffagnwm, llafn y bladur, plu'r gweunydd neu glwbfrwyn y mawn, a hynny ar fawn sy'n llai na 50cm o ddyfnder, dylid eu mapio fel Rhos Llawr Gwlad neu Ros yr Arfordir.

Dylid dosbarthu ac inwlioheath defnydd a rhyfeddod fel Cae tywod a traeth shingle.

Gweler y disgrifiad dosbarthiad Gwrych i helpu i wahaniaethu rhwng tir heth a gwrych.

Delwedd: Rhos sych llawr gwlad gyda grug yn dominyddu, ac eithin



Delwedd: Rhos sych sy'n cael ei danreoli, gydag eithin trwchus (y clustogau isel o flodau melyn), grug (y blodau porffor golau) a grug y mêl (blodau cochlyd/porffor)



Delwedd: Rhos yr arfordir, mewn cyflwr da



Delwedd: Dylid mapio rhos sych sydd mewn cyflwr drwg fel rhos llawr gwlad a rhos yr arfordir. Nid prysgwydd mohono



Delwedd: Rhos wlyb gyda glaswellt y gweunydd ac eithin



Delwedd: Rhos wlyb gyda glaswellt y gweunydd, grug a grug croesddail



2.4 Gwlypdir Wedi'i Amgáu a Glaswelltir Corsiog

Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog yn cynnwys ystod eang o gynefinoedd gan gynnwys brocg, ffen, ffliw, morlyn, llanw, glaswelltir corsiog a glaswelltir rhos.

Fel arfer, bydd yn hawdd adnabod gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog gan eu bod yn amlwg yn dir gwlyb neu laith lled-naturiol, gyda gorchudd o frwyn, glaswellt y gweunydd, plu'r gweunydd, hesg, cyrs a/neu fwsoglau. Fel arfer bydd llawer llai na 25% o'r gorchudd yn rhygwellt a meillion gwyn.

Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – glaswelltir corsiog brwynog



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – Er mai cynefin ucheldir yw Gorgors fel arfer, fe'i gwelir hefyd ar lawr gwlad, sylwer ar y gorchudd helaeth o rug



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – Cyforgors ar lawr gwlad gyda glaswelltir y gweunydd a phlu'r gweunydd



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – Cors wedi'i haddasu, a glaswellt y gweunydd wedi'u pori gan wartheg



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – Mignen sur llawr gwlad



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – gwlypdir llawr gwlad ar fawn dwfn gyda thir pori brwynog (glaswelltir corsiog) ar fawn teneuach yn ffinio ag ef



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – gyda chyrs a hesg tal



Delwedd: Gwlypdir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog – mae'r lefel trwythiad yn barhaol nes at y wyneb mewn gwlypdir (uchod) nag mewn glaswelltir corsiog



2.5 Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu (yn cael ei reoli fel cae pori neu gae gwair)

Er y gellir adnabod tir pori cyfoethog mewn blodau heb wella'n hawdd fel cynefin, efallai y bydd angen asesu porfeydd dail brin o blanhigion i gadarnhau a ydynt yn hanner naturiol neu wedi'u gwella'n ffermio.

Mae tir nad yw wedi cael ei blannu neu ei ailhadu yn ddiweddar ac nad yw'n derbyn lefelau uchel o fewnbynau ac sy'n cael ei ieirchau fwy eang yn fwy tebygol o fod yn hanner-naturiol..

Gellir cynnwys glaswelltiroedd gyda thwscod wedi'u gwasgaru o fysen feddal gyda glaswelltiroedd sych rhyngddynt hefyd yn y categori hwn. Fodd bynnag, os yw'r safle'n bennaf fysen neu glaswellt moryn porffor dylid ei fapio fel dir gwlyb caeedig a glaswelltiroedd morwrol.

Mae pedwar math prif o dir glaswelltog sych heb ei wella yn bresennol yng Nghymru.

- i. tir glaswelltog asidig, (heb ei wella)
- ii. tir glaswelltog niwtral
- iii. tir glaswelltog calcarol
- iv. calaminarian

Mae presenoldeb y tri cyntaf yn dibynnu'n bennaf ar lefelau acideiddedd y pridd (pH).

Pedwerydd, 'calaminarian', yw glaswelltiroedd prin iawn, ac mae'n digwydd ar bridd sydd yn gyfoethog mewn metelau trwm

i. Glaswelltiroedd Sur

Mae glaswelltiroedd sur i'w cael ar briddoedd sur lle mae'r lefelau pH yn is na 5.0. Maent i'w cael yn bennaf mewn porfeydd pori ar ymylon yr ucheldir, ond gallant ddigwydd i lawr i lefel y môr.

Yn y rhan fwyaf o laswelltiroedd sur sych yn yr iseldir, mae glaswelltau meinddail fel peiswellt y defaid a maeswellt cyffredin yn doreithiog.

Ymhlith y blodau nodweddiadol mae'r friwydd wen a thresgl y moch. Mae blodau eraill achlysurol i aml yn cynnwys melog y cŵn, fioled gyffredin, clychau'r eos a chribau San Ffraid.

Delwedd: Glaswelltir sur sych gyda briwydd wen toreithiog



Delwedd: Glaswelltir sur sych gyda briwydd wen toreithiog



Delwedd: Glaswelltir sur sych gyda briwydd wen toreithiog



Ar briddoedd sy'n deneuach neu'n fwy tueddol o sychu, mae suran yr ŷd yn nodweddiadol iawn, ynghyd â mwsoglau a chennau toreithiog.

Delwedd: Glaswelltir sur sy'n dueddol o sychu gyda suran yr ŷd (blodau coch), mwsoglau a chennau toreithiog



Delwedd: Suran yr ŷd



ii. Glaswelltiroedd niwtral

Mae glaswelltiroedd niwtral i'w cael ar briddoedd nad ydynt yn asidig nac yn alcalïaidd iawn, ond sydd heb lawer o faethynnau yn y pridd fel ffosforws a nitrogen. Maent i'w gweld ar lethrau gwastad neu â goleddf ysgafn, mewn porfeydd pori yn yr iseldir neu mewn gweirgloddiau.

Mae glaswelltiroedd niwtral fel arfer yn flodeuog iawn gyda sawl rhywogaeth wahanol o laswellt.

Mae glaswelltau cyffredin yn cynnwys: rhonwellt y ci, perwellt y gwanwyn, peiswellt coch a maswellt penwyn

Mae'r planhigion blodeuol yn cynnwys pysen-y-ceirw, y bengaled, meillionen goch, milddail, llyriad yr ais, llygad-llo mawr a rhywogaethau o deulu'r 'Dant y Llew' fel y melynnydd a pheradyl garw. Mae enghreifftiau o weirgloddiau yn aml yn cynnwys y gribell felen ac effros.

Delwedd: Glaswelltir niwtral heb ei wella mewn gweirglodd, gyda meillionen goch, llygad-llo mawr a pheradyl garw (blodau melyn) niferus



Delwedd: Pysen-y-ceirw



Delwedd: Y bengaled



iii. Glaswelltir calchaid

Glaswelltir calchaid i'w cael ar briddoedd calchaid sydd â pH uwch na 6.5, yn bennaf yn ardaloedd calchfaen y Gogledd a'r De. Maent i'w cael ar dir gwastad ac ar lethrau serth, fel arfer gyda brigiadau o graig galchfaen, ac yn cael eu pori fel arfer fel porfa.

Mae'r gwair cyffredin yn cynnwys: Fescien y Defaid a Gwair Cryndod.

Mwyaf nodedig yn cynnwys cor-rosyn, teim gwyllt, bwrned, clafrllys bach a'r friwydd felen. Mae'r prif laswelltau yn cynnwys peiswellt y defaid a chrydwellt.

Delwedd: Glaswelltir calchaid gyda theim gwyllt (blodau porffor) a chor-rosyn (blodau melyn) yn aml, gyda brigiadau creigiog o galchfaen



Delwedd: Cor-rosyn



Delwedd: Teim gwyllt



iv. Glaswelltiroedd Metelaidd

Mae glaswelltiroedd metelaidd yn brin iawn yng Nghymru, ac fe'u ceir ar briddoedd sy'n cynnwys drwm gan fetelau trwm fel plwm a sinc. Mae gan y ffurf fwyaf nodedig dywodlys y gwanwyn niferus, tra bod ffurfiau eraill yn cynnwys cyfoeth o fwsoglau a chennau.

Maent i'w cael ar safleoedd mwyngloddiau metel segur ac fel arfer yn cael eu pori fel porfa. Maent i'w cael yn yr iseldiroedd a'r ucheldiroedd. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd naill ai yn y Gogledd-ddwyrain neu yng Ngheredigion.

Delwedd: Glaswelltiroedd metelaidd gyda thywodlys y gwanwyn (blodau gwyn) a mwsoglau toreithiog



2.6 Cynefinoedd Agored yr Ucheldir (gan gynnwys clytwaith o rostir, mawnogydd a glaswelltir eang)

Tir yw ucheldir, sydd uwchlaw terfyn uchaf tir caeedig (tua 300m).

Dylid mapio pob cynefin a chlytwaith o gynefin agored yn yr ucheldir fel cynefinoedd agored yr ucheldir, gan gynnwys rhosydd, gwlypdir (cors, ffen, llac a gwern), glaswelltir corsiog a glaswelltir sych, gan gynnwys darnau bychain o dir wedi'i wella. Mae cadarnhad bod parcel yn yr ucheldir a bod y rhan fwyaf ohono'n gynefin yn ddigon i'w ddiffinio o dan y categori hwn.

Pwysig: mae gofal angenrheidiol planhigion gwyllt hegyndd, megis gwrthsafon gorllewinol a llwyau, nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel Llystyfiant.

Delwedd: Ucheldir agored – rhos a glaswelltir sur (yn dangos effaith pori) yn y blaendir a chynefinoedd mynydd yn y cefndir



Delwedd: Ffin yr ucheldir – tir lled-naturiol heb ei amgáu (Cynefin agored yr ucheldir) uwchlaw'r caeau (ffridd)



2.7 Perllannau traddodiadol

Yn berthnasol i dir lled-naturiol a thir amaethyddol wedi'i wella lle ceir coed perllan traddodiadol.

Lleiniau o dir yw'r rhain lle ceir coed afalau, gellyg, ceirios, eirin, eirin duon, cnau Ffrengig a chyll. Maen nhw'n tyfu fel arfer ar laswelltir wedi'i reoli trwy ei bori neu ei dorri. Mae dwysedd stocio'r coed yn dibynnu ar y math o goedden:

- Yn achos coed afalau, gellyg a cheirios, fel arfer ceir llai na 150 o goed/ha (bwlch o ryw 8m rhwng pob coeden).
- Gall y dwysedd fod yn uwch ar gyfer coed eraill fel eirin ac eirin duon.

Dylai'r coed fod o daldra safonol neu hanner safonol. Yn achos coed afalau, mae hynny'n golygu dros 3m o daldra pan fyddant yn aeddfed.

Mae coed ifanc a pherllannau newydd eu plannu nad ydyn nhw'n cael eu rheoli'n dwys, hefyd yn dod o dan y categori hwn.

Ni ddylid cynnwys perllannau masnachol sy'n cael eu rheoli'n ddwys. Mae'n hawdd adnabod y rhain, diolch i'r mathau byr iawn o goed a dyfir (tua 2m o daldra) ar strybedi o bridd moel y mae chwynladdwr wedi'i wasgaru drosto.

Delwedd: Perllan draddodiadol – gyda choed gor-aeddfed, wedi'i phori'n ysgafn



Delwedd: Perllan draddodiadol – wedi'i phori'n galetach



Delwedd: Ni ddylech gyfrif perllannau masnachol â stribedi di-chwyn wedi'u dyfrhau fel perllannau traddodiadol



2.8 Rhedyn Trwchus

Mae gorchudd rhedyn drwchus yn cael ei ddosbarthu fel cynefin ei hun. Dylid mapio lleiniau dan drwch o redyn ar wely trwchus o redyn marw fel rhedyn trwchus. Os oes modd adnabod y cynefin o dan y rhedyn, y cynefin hwnnw ddylai gael ei fapio fel y cynefin oddi tano.

Delwedd: Rhedyn Trwchus – yn yr Hydref



Delwedd: Rhedyn trwchus – yn yr haf (yn y blaendir)



2.9 Prysgwydd

Prif lystyfiant prysgwydd yw llwyni sydd fel arfer yn llai na 5m o daldra pan fyddan nhw'n llawndwf. Gall amrywiaeth eang o rywogaethau brodorol ffurfio prysg, y mwyaf cyffredin yw eithin, drain duon, drain gwynion, ysgaw, mieri a helyg.

Mae gorchudd mwgwd yn cael ei ddosbarthu fel cynefin ei hun. Fodd bynnag, os yw'r cynefin sylfaenol yn amlwg yn gallu cael ei adnabod o dan y mwgwd (h.y. bod y prysg ar wasgar ac yn agored gyda glaswelltir oddi tano), yn enwedig os yw'n cael ei bori, dylid nodi'r cynefin o dan y prysg at ddiben ei fapio. Fel arall, dylid ei fapio fel prysgwydd trwchus.

Pwysig: rhaid wrth ofal i fapio tir â chorlwyni rhostir fel eithin a grub yn rhostir ac nid prysgwydd. (gweler Rhos Llawr Gwlad a Rhos yr Arfordir am luniau o eithin cyffredin).

Dylid mapio eithin Ffrengig (gweler y delweddau isod) fel prysgwydd. Mae'n tueddu i fod yn dalach nag eithin cyffredin sy'n aml tua uchder y pen-glin pan fydd yn llawndwf. Mae eithin cyffredin yn aml yn tyfu'n glustog trwchus. Mae eithin Ffrengig yn tueddu i fod yn fwy heglog.

Ni ddylid mapio rhywogaethau estron goresgynnol megis rhododendron fel prysgwydd, a rheolwyd fel y nodir yn ofynnol yng nghyflyrau Sylfaen Rheoleiddiol SFS.

Delwedd: Prysgwydd trwchus – cymysgedd o eithin Ffrengig a choed drain



Delwedd: Rhedyn a phrysg gwasgaredig – eithin Ffrengig, mieri a llwyni helyg. Fodd bynnag, gan y gellir adnabod y cynefinoedd sylfaenol dylid mapio'r ardal fel gwlyptir caeedig a glaswelltir gwlânog



2.10 Coed pori

Mae gan coed pori orchudd o lai na 30% o goed, yn bodoli fel coed gwasgaredig. Fodd bynnag, gallai coed gael eu clystyru i sicrhau gorchuddiad uwch na 30% yn lleol. Dylai fod ar gyfartaledd o leiaf 6 coeden fesul hectar wedi'u gwasgaru ar draws y safle.

Mae llawer o'r coed presennol o fath sy'n tyfu'n agored, gyda chorun dwfn a boncyff byr. Mae yn dir sy'n cael ei bori, gyda choed brodorol ac weithiau coed anffroddorol neu addurnol, dros 3 metr o daldra, yn tyfu ar wasgar ar laswelltir garw neu ros, yn aml mewn clytwaith gyda phrysgwydd a rhedyn.

Gan amlaf mae coed pori yn deillio o systemau rheoli tir hanesyddol ac mae iddynt strwythur llysdyfiant yn hytrach na'u bod yn gymuned o blanhigion penodol. Gall yr enghreifftiau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol gynnwys hen goed neu 'goed hynod' fel y'u gelwir.

Mae'r categori hwn yn cael ei gyfri'n dir lled-naturiol yn unig. Ni chynhwysir coed pori ar dir â'r neu dir wedi'i wella ac ni ddylid ei ddsbarthu fel cynefinoedd.

Delwedd: Coed pori – gyda twmpathau o laswellt a rhedyn, coed 'hynod' a choed marw



Delwedd: Coed pori – ar ffridd



2.11 Pyllau bywyd gwyllt parhaol

Caiff pyllau bywyd gwyllt eu diffinio fel ardaloedd o ddŵr agored sy'n gyfyngedig i 1 hectar neu lai mewn maint y'u prif swyddogaeth yw sicrhau budd i natur. Nid yw hyn yn cynnwys nodweddion y'u prif swyddogaeth yw storio dŵr ar gyfer gweithrediadau fferm ee pyllau dyfrhau, cronfeydd storio, tanciau dŵr, unig ffynonellau o ddŵr ar gyfer da byw.

Delwedd: Pyllau bywyd gwyllt parhaol



Delwedd: Pyllau bywyd gwyllt parhaol



2.12 Cynefinoedd Newydd ar Dir Wedi'i Wella

Mae'r categori hwn yn cwmpasu ardaloedd lle mae gwaith yn cael ei wneud i sefydlu cynefinoedd ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu dir oedd yn arfer bod yn goedwig nad ydyw yn y man cyntaf yn bodloni'r disgrifiadau cynefin a ddisgrifir uchod, h.y. ni ellir adnabod y tir fel cynefin. Fodd bynnag, bydd y gwaith rheoli yn golygu bod y tir yn debygol o newid dros amser, h.y. bydd yn newid o fod yn ddosbarthiad cynefin newydd ei greu l'r dosbarthiad cynefin mwyaf priodol yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau o weithgareddau a allai berthyn i'r categori hwn yn cynnwys coridorau bywyd gwyllt mewn caeau a mannau llawn blodau sy'n creu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt amrywiol, gan gefnogi pryfed peillio, infertebratau, mamaliaid bach ac adar. Mae'r nodweddion hyn hefyd yn diogelu cynefinoedd eraill, fel perthi a chrysiau dŵr, a hefyd yn goridorau ar gyfer symud bywyd gwyllt.

Delwedd: Enghraifft o goridor ar ochr afon wedi'i greu yn ddiweddar ar dir gwell



3. Tir wedi'i wella sy'n cael ei reoli'n ddwys

Glaswelltir sydd wedi'i wella at ddibenion amaethyddol, gyda mwy na 25% ohono'n rhygwellt a meillion gwyn, ac sy'n cael ei reoli'n ddwys a'i bori'n drwm neu ei dorri sawl gwaith y flwyddyn am silwair, a llawer o slyri neu wrtaith yn cael ei wasgaru arno nid ydynt yn cael eu dosbarthu fel tir cynefin

Ni ddylid mapio tir wedi'i wella sy'n cael ei reoli'n ddwys fel math o gynefin ac fydd yn destun Cam Gweithredu Cyffredinol 1: Prawf Pridd. Mae manylion llawn ar gael yn Adran J1 o'r **Canllaw Haen Gyffredinol yr SFS**

Delwedd: Tir wedi'i wella sy'n cael ei reoli'n ddwys – llawer o rygwellt a meillion gwyn. Bydd dail disglair y rhygwellt yn amlwg ar lefel y cae, fel y maen nhw yn y cae silwair hwn

